# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 3**

RHYDDHAD RHAG TRETH

**26 Rhyddhadau: cyffredinol**

(1) Mae'r Bennod hon yn darparu rhyddhad rhag treth ar gyfer gwarediadau trethadwy penodol.

(2) Nid yw'r Bennod hon ond yn gymwys i warediadau a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

(3) Nid yw'r dreth i'w chodi mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy os yw wedi ei ryddhau rhag treth.

(4) Rhaid hawlio rhyddhad rhag treth ar ffurflen dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 26 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 26.